

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Map llwybrau Ar Drywydd Dysgu (ADD)

Datganiad cryno
Mae dysgwyr yn rhannu arferion syml wedi'u hwyluso gan oedolion sy'n cyfeirio'n gynyddol at wrthrychau a gweithredoedd. Maen nhw'n ymateb i lais darllenydd cyfarwydd – tŷn, patrwm a phwyslais y llais – i rannu agweddau dramatig ar stori neu rigwm. (Mae gweithgareddau asesu a strategaethau addysgu ar gyfer eitemau yn y golofn hon i'w gweld yn neunyddiau <i>Ar Drywydd Dysgu</i>.)

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf A

Datganiad cryno
Mae dysgwyr yn dangos gallu cynyddol i gael at wybodaeth wedi'i chyfleu mewn ffurf dau ddimensiwn (gweledol/cyffyrddol) a dechrau ei chysylltu â synau a digwyddiadau allweddol mewn storïau cyfarwydd.

Chwilio am eitemau 'cynrychioliadol', e.e. lluniau, ffotograffau, llyfrau cyffyrddol/codi dalen, ac ati	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch ddewis eang o wrthrychau 'bob dydd' i'r dysgwr gan gynnwys amrywiaeth o lyfrau ac eitemau 'cynrychioliadol' eraill.	Mae'r dysgwr yn archwilio gwrthrychau gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys eu harchwilio'n weledol
Sylwch ar sut y mae'r dysgwr yn rhyngweithio â'i amgylchedd.	Mae'r dysgwr yn mynd at lyfrau, cylchgronau, catalogau, ac ati, neu'n estyn amdanyn nhw er mwyn edrych yn fanwl ar y lluniau, eu teimlo nhw a/neu drin y tudalennau.

Dangos sylw cynyddol i rai llyfr(au), gan roi llyfrau eraill i'r naill ochr	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch amrywiaeth o lyfrau i'r dysgwr a deunyddiau gweledol eraill sy'n cynrychioli ystod o wahanol feintiau, ffurfiau, deunyddiau, mathau o rwymo a chyfran berthynol o brint i luniau.	Mae'r dysgwr yn canolbwyntio mwy ar rai eitemau a/neu'n rhoi sylw iddyn nhw am gyfnod ychydig yn hwy, hyd yn oed os yw hynny'n wibiol.
Strategaethau addysgu (i symud y dysgwr at y cam hwn)	
Ceisiwch annog y dysgwr i samplu'r ystod o eitemau fel gweithgaredd pleserus i'w rannu. Dilynwch linell ei diddordeb, 'darllenwch' neu cynigiwch sylwadau ar ddarn o bob un, ond symudwch ymlaen at rywbeth arall pan fydd y dysgwr am wneud hynny. Sylwch ar yr eitemau, ffurfiau, ac ati y maen nhw'n eu hoffi fwyaf, a'u cofnodi. Dychwelwch at y rhain ar adegau eraill a cheisiwch sicrhau bod deunyddiau ychwanegol sydd â nodweddion tebyg ar gael iddyn nhw yn y dyfodol.	

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Dangos diddordeb wrth i oedolyn ddarllen stori, edrych ar y llyfr, yn ei gyffwrdd a'i drin a'i drafod ar brydiau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd (e.e. <i>o fewn grŵp, neu leoliad tawel un-i-un; gyda neu heb bropiau 'sach stori'</i>), 'darllenwch'/adroddwch/perfformiwch chwedlau, rhigymau syml a cherddi gan annog y dysgwr i wrando ar eich llais ac ailadrodd elfennau o fewn y stori. Pwyntiwch o bryd i'w gilydd at luniau mawr, clir a cheisiwch annog y dysgwr i <i>edrych</i> arnyn nhw ac ymgysylltu'n gorfforol drwy ddal a chyffwrdd â'r llyfr.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r gorau i'r gweithgaredd arall, am gyfnod byr o leiaf, ac yn edrych tuag at yr oedolyn pan fydd yn siarad. Mae iaith y corff, mynegiant yr wyneb a sut mae'r dysgwr yn lleisio yn cyfateb â diddordeb yn y rhyngweithio â'r stori. Mae'r dysgwr yn estyn am y llyfr ac yn edrych arno o leiaf tair gwaith.

Gwrando gyda diddordeb ar synau a recordiwyd ar swits 'cam wrth gam', neu ar stori lafar ar gyfrifiadur; defnyddio swits neu sgrin cyffwrdd i ailadrodd synau ac i symud ymlaen â'r stori	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dewiswch un neu wahanol fathau o synau, geiriau neu ymadroddion byr sy'n rhan o stori, cerdd neu ddrama. Gyda'r dysgwr yn arsylwi, cofnodwch y rhain ar y swits siarad (e.e. Big Mack switch, Step-by-Step switch neu <i>ddyfais debyg</i>). Paratowch drwy ymarfer pwyso'r swits i glywed yr effaith. Rhowch swits neu sgrin gyffwrdd i'r dysgwr i 'droi tudalennau stori lafar' ar y cyfrifiadur.	Mae'r dysgwr yn pwyso'r swits, yn aros i wrando ar y sŵn, yna'n pwyso'r swits eto, gan ddangos diddordeb mewn clywed y synau. Mae'r dysgwr yn: • gwrando ar dudalen o'r stori wrth iddi gael ei darllen (gan y meddalwedd) • pwyso'r swits i droi'r dudalen • gwrando ac edrych ar ddarluniadau ar y sgrin o bryd i'w gilydd.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Lleisio mewn ymateb i ran arbennig o stori gyfarwydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd (e.e. <i>o fewn grŵp, neu leoliad tawel un-i-un; gyda neu heb bropiau 'sach stori'</i>), 'darllenwch'/adroddwch/perfformiwch chwedlau, rhigymau syml a cherddi i annog y dysgwr i gymryd rhan.	Mae'r dysgwr yn lleisio a allai arddangos diddordeb neu gyffro yn gysylltiedig â'r stori.

Rhagweld patrwm sy'n ailadrodd mewn stori	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dewiswch stori sydd â phatrymau ailadroddus dramatig, cryf. Dull arall fyddai annog dysgwyr i wneud yr un sŵn bob tro y caiff ei ailadrodd, e.e. <i>curo ar ddrws y moch bach</i> .	Mae'r dysgwr yn cyffroi neu'n rhagweld drwy fynegiant yr wyneb, symudiad y corff neu leisio ar sawl achlysur wrth i batrymau ailadroddus gyrraedd penllanw. Mae'r dysgwr yn ceisio curo ar yr adeg briodol mewn ymateb i batrwm ailadroddus yn y stori.

Dangos ymateb penodol i agwedd synhwyrdd ar stori adnabyddus (e.e. <i>chwerthin a chyffro mewn golygfa frwydr, anesmwythder wrth glywed cerddoriaeth iasol</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Defnyddiwch gerddoriaeth, goleuo, taflunio a nodweddion eraill yr ystafell synhwyrdd neu stiwdio ddrama i greu awyrgylch sy'n briodol i olygfeydd penodol mewn stori ddramatig. Actiwch yr olygfa gan sylwi ar ddysgwyr yn ymgysylltu â'r digwyddiad(au).	Mae'r dysgwr yn ymateb i'r awyrgylch gan ddangos rhyw fath o adwaith 'affeithiol'.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf B

Datganiad cryno
Gall dysgwyr gyfateb gwybodaeth weledol i amcanion, pobl a digwyddiadau penodol. Gallan nhw gyfeirio at lun ar adeg briodol pan fydd rhywun yn darllen, neu ailadrodd geiriau/ymadroddion cyfarwydd mewn cyd-destun.

Dal llyfr neu'n ei droi ar i fyny	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch sut mae'r dysgwr yn rhyngweithio â llyfrau, cylchgronau a deunyddiau cynrychioliadol eraill pan fyddan nhw'n cael ei adael ar ei ben ei hun.	Mae'r dysgwr yn codi'r llyfr ac yn cywiro ei chyfeiriad yn ddigymell pan fydd y llyfr wyneb i waered.
Rhowch lyfr agored i'r dysgwr sy'n wyneb i waered.	Mae'r dysgwr yn sylwi ac yn troi'r llyfr y ffordd gywir.
Eisteddych gyda'r dysgwr ac edrychwch ar lyfr wyneb i waered.	Mae'r dysgwr yn protestio, yn dangos syndod neu ymateb arall sy'n dangos ei fod wedi sylwi.

Pwyntio at lun o gymeriad mewn stori gyfarwydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dewiswch lyfr stori sy'n gyfarwydd iawn i'r dysgwr. Darllenwch y stori gyda'ch gilydd yna arhoswch mewn man lle mae'r prif gymeriad wedi'i bortreadu'n glir yn y llun.	Mae'r dysgwr yn pwyntio at lun o'r cymeriad.
Gofynnwch i'r dysgwyr, 'Ble mae . . . (e.e. <i>Jack</i>)?'	

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Paru unigolyn cyfarwydd â ffotograff clir o'r unigolyn hwnnw	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Tynnwch gyfres o ffotograffau clir o'r holl ddysgwyr a staff yn y dosbarth. Rhewch un ffotograff i'r dysgwr a gofynnwch 'Pwy yw hwn?'. Ceisiwch ysgogi'r dysgwr i fynd â'r llun i'r person hwnnw neu bwyntio neu bwyntio â'r llygaid fel y bo'n briodol i'w anghenion.	Mae'r dysgwr yn dangos y gall adnabod o leiaf dri pherson cyfarwydd yn y ffotograffau.

Canfod eu henw eu hunain mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn yr ystafell ddosbarth	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gwnewch yn siŵr bod enwau'r dysgwyr wedi'u marcio mewn amryw o ffyrdd o gwmpas yr ystafell ddosbarth, e.e. <i>ar beg cotiau, hambwrdd, llinell amser/amserlen, llyfrau, ac ati</i>. Symudwch eitemau gydag enwau arnyn nhw o gwmpas o bryd i'w gilydd, gan sicrhau nad ydyn nhw yn yr un lle bob tro.	Mae'r dysgwr yn dewis ei enw ei hun o'r dewis o enwau sydd ar gael mewn o leiaf dri lleoliad gwahanol ac ar fwy nag un achlysur.

Cyflwyno'u hoff lyfr i oedolyn er mwyn i'r oedolyn ddarllen y llyfr iddynt	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Ceisiwch annog y dysgwr i fynd at y gornel lyfrau/llyfrgell gan ddweud 'Cer i nôl llyfr i ni ddarllen'. Sylwch sut y mae'n dewis.	Mae'r dysgwr yn edrych yn ofalus ar ddau neu dri llyfr cyn dewis un. Mae'r dysgwr yn dewis llyfr rydych chi'n gwybod sy'n un o'i ffefrynnau ar unwaith.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Creu sŵn neu iaith lafar sy'n cyfateb â llun mewn stori gyfarwydd (e.e. <i>dewis swits (o blith dau) a'i bwyso i chwarae'r sŵn priodol</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gan ddefnyddio stori gyfarwydd, cofnodwch ddwy sŵn sy'n cyfateb i gymeriadau neu weithredoedd, ac mae o leiaf un ohonyn nhw'n ailadrodd. 'Paratowch' drwy ddefnyddio'r swits cyn dechrau'r stori.	Mae'r dysgwr yn cychwyn y sŵn ailadroddus ar yr adeg iawn drosodd a throsodd, ond yn cychwyn yr 'anghenfil' dim ond pan fydd y llun penodol i'w weld.

Defnyddio geiriau (llafar) neu'n dewis gwrthrych neu symbol i 'ddisgrifio' nodwedd a ddarlunnir mewn llyfr stori	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dechreuwch ddarllen stori gan dynnu sylw'r dysgwr at y lluniau a dilynwch y geiriau gyda'ch bys. Fel sy'n briodol i ddull cyfathrebu'r dysgwr, paratowch wrthrychau a/neu symbolau y gellir eu defnyddio i labelu neu ddisgrifio cymeriadau, gweithredoedd, lleoedd neu ddigwyddiadau o fewn y stori a ddewiswyd. Ceisiwch ysgogi'r dysgwr o bryd i'w gilydd, e.e. <i>'Beth alli di ei weld? Dangosa i mi!'</i>, a chyfeiriwch at wrthrychau/symbolau.	Mae'r dysgwr yn dweud gair (neu eiriau) perthnasol ar adeg briodol yn ystod sesiwn rhannu darllen ag oedolyn. Mae'r dysgwr yn dewis gwrthrych neu symbol sy'n berthnasol i'r hyn sy'n digwydd yn y stori. Ceisiwch annog y dysgwr i leisio hefyd.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Paru eitemau mewn sach stori â chymeriadau, lleoedd neu ddigwyddiadau mewn stori gyfarwydd iawn	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gwnewch neu ddefnyddiwch sach stori sy'n cynnwys ystod eang o bropiau wedi'u cysylltu â'r stori a ddewiswyd.	Mae'r dysgwr yn cyfateb eitem yn y sach stori i'w lun pan fydd yn ymddangos yn y stori.

Edrych ar un neu ddau o'u hoff lyfrau lluniau cyfarwydd (neu gyfrwng synhwyrdd cyfatebol) gydag oedolyn, gan roi sylw i agweddau penodol y bydd yr oedolyn yn cyfeirio atynt yn y llun	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gan ddefnyddio llyfr cyfarwydd rydych yn gwybod bod y dysgwr yn ei hoffi, trowch y tudalennau gyda'r dysgwr, siaradwch am y lluniau/eitemau synhwyrdd.	Sylwch pan fydd y dysgwr yn rhoi sylw arbennig i'r eitem sy'n cael ei disgrifio.

<i>Efelychu (e.e. copïo mynegiant wyneb) neu dangos empathi (e.e. o!) wrth ymateb i rywbeth penodol sy'n digwydd i gymeriad mewn stori gyfarwydd</i>	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Darllenwch y stori gyda'r dysgwr, gan aros mewn mannau allweddol i gael ei ymateb. Modelwch fynegiannau'r wyneb sy'n briodol i'r digwyddiadau a ddarlunnir (e.e. <i>syndod, ofn, cyffro, tristwch, ac ati</i>).	Mae'r dysgwr yn gwneud unrhyw fath o ymateb sy'n dangos graddfa o ymgysylltiad emosiynol â'r stori. Mae'r dysgwr yn ceisio dynwared.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Dangos pleser pan fydd oedolyn yn dechrau darllen un o'u hoff storïau, yn ymateb ar adegau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhannwch hoff lyfr stori â'r dysgwr.	Mae'r dysgwr yn dangos ei fod yn rhagweld sesiwn rhannu darllen (e.e. <i>yn setlo'n gysurus ac yn rhoi sylw i'r oedolyn a'r llyfr</i>). Mae'r dysgwr yn ymgysylltu â'r llyfr o leiaf dair gwaith yn ystod y sesiwn ddarllen (e.e. <i>i bwyntio neu edrych yn agosach ar y llun, neu leisio ar adeg briodol</i>). Mae'r dysgwr yn anwybyddu pethau sy'n tynnu sylw yn ystod y rhan fwyaf o'r stori. Mae'r dysgwr yn dangos ymwybyddiaeth bod y stori wedi gorffen (e.e. <i>cynnig sylwadau mewn rhyw ffordd – drwy leferydd, mynegiant yr wyneb neu iaith y corff, cau'r llyfr, ac ati</i>).

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Colofn: Camau nesaf C

Datganiad cryno
Mae dysgwyr yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng print a lluniau. Gallan nhw ddweud rhywbeth am un o'r cymeriadau neu ddigwyddiad mewn stori gyfarwydd y maen nhw newydd ei chlywed a gallan nhw gysylltu hyn â'r dilyniant o ddigwyddiadau a ddarlunnir.

Trin a thrafod llyfr, gan droi'r tudalennau o'r blaen i'r cefn yn bennaf, ac edrych arnynt â diddordeb	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch ar y dysgwr pan fydd yn darllen ar ei ben ei hun. Ceisiwch annog y dysgwr i ddal y llyfr a throi'r tudalennau pan fyddwch yn ei ddarllen gydag fe/hi.	Mae'r dysgwr yn dangos ymwybyddiaeth bod 'cyfeiriad' llyfr yn rhedeg o'r blaen i'r cefn. Mae'n troi'r tudalennau un ar y tro yn bennaf, gan edrych ar rywbeth/darllen rhywbeth o bob pâr o dudalennau – er y gall golli rhai tudalennau.

Edrych ar y dudalen chwith mewn llyfr cyn edrych ar y dudalen dde	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Sylwch ar y dysgwr pan fydd yn darllen ar ei ben ei hun. Ceisiwch annog y dysgwr i ddal y llyfr a throi'r tudalennau pan fyddwch yn ei ddarllen gydag fe/hi.	Fel arfer bydd y dysgwr yn edrych yn gyntaf/darllen rhywbeth yn gyntaf o'r dudalen chwith.

'Darllen' llinell amser o ddarluniau neu symbolau ac yn dweud beth fydd yn digwydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch linell amser neu amserlen i'r dysgwr sydd mewn trefn o'r chwith i'r dde. Addaswch yn ôl anghenion y dysgwr gan ddefnyddio lluniau, symbolau a rhai geiriau y mae'n gyfarwydd iawn â nhw.	Mae'r dysgwr yn gwybod beth fydd yn digwydd gyntaf, nesaf, ac ati drwy ddarllen llinell amser o'r chwith i'r dde.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Canfod eitem a ddymunir drwy sganio/archwilio labeli	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn sefyllfa megis siop ystafell ddosbarth neu wrth ddewis eitemau i fynd ar bicnic. (Ni ddylai'r dasg fod yn un sydd mor gyfarwydd fel bod y dysgwr yn gallu dewis gwrthrychau o gynwysyddion drwy eu cofio heb edrych – symud y droriau wedi'u labelu, ac ati o bryd i'w gilydd i osgoi hyn.)	Mae'r dysgwr yn gallu dewis eitemau cyfarwydd drwy sganio/archwilio'r labeli ar flychau, droriau, ac ati. (Gallai'r labeli fod yn symbolau neu'n lluniau.)

Dilyn cyfarwyddiadau un/dau gam syml sydd wedi'u 'hysgrifennu' ar ffurf lluniau neu symbolau	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Mewn sefyllfa gêm, dangos cardiau i'r dysgwr sy'n nodi ym mha drefn y dylid gwneud dau beth (e.e. <i>arllwys dŵr i gwpan ac yna rhoi'r cwpan i unigolyn</i>). Dylai'r dysgwr fod yn gyfarwydd ag ystod o gardiau cyfarwyddiadau o'r fath cyn y gellir asesu, ond dylai'r cerdyn dan sylw gyflwyno'r gweithgaredd newydd er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn dilyn cyfarwyddiadau yn hytrach na dim ond dilyn trefn arferol.	Mae'r dysgwr yn dilyn y cyfarwyddiadau yn gywir.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Paru geiriau cyfarwydd iawn ac yn adnabod ychydig o lythrennau penodol (e.e. <i>llythrennau o'u henw eu hunain</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhowch sawl pâr o eiriau wedi'u cymysgu i'r dysgwr (gan gynnwys dwy elfen o'u henw) mewn amryw o gyflwyniadau, e.e. <i>ar becynnau bwyd, ar gardiau fflach neu raglenni ar gyfrifiadur personol</i>, gan ofyn, 'Chwilia am ddau air sydd yr un fath'. Rhowch lythrennau ei enw ei hun i'r dysgwr (wedi'u torri ar gerdyn mewn rhaglen ar y cyfrifiadur personol). Cymysgwch nhw.	Mae'r dysgwyr yn cyfateb o leiaf 10 pâr o eiriau yn gywir sy'n cael eu cyflwyno dim mwy na phum pâr ar y tro. Mae'r dysgwr yn dewis o leiaf lythyren gyntaf pob rhan o'i enw yn gywir.

Defnyddio lluniau i roi digwyddiadau allweddol (tri ohonynt) yn eu trefn mewn stori gyfarwydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Dewiswch stori gyfarwydd iawn â'i darllen gyda'r dysgwr. Gwahanwch dudalennau o (gopi) o'r llyfr neu paratowch luniau sy'n darlunio'n glir (tri) digwyddiad allweddol yn y stori. Mae adnoddau gweledol ar gyfer nifer o storïau hefyd ar gael i'w lawrlwytho fel ffeiliau jpg o Sparklebox. Gofynnwch i'r dysgwr ddefnyddio'r lluniau i adrodd y stori, e.e. <i>ar ddiwedd prosiect ar gylchred bywyd broga, rhowch luniau i'r dysgwr o dri cham allweddol (wy, penbwl, broga)</i>.	Mae'r dysgwr yn rhoi'r lluniau mewn trefn gan ddefnyddio cyfeiriadedd o'r chwith i'r dde.

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Cyfeirio at, neu'n gwneud sylwadau ynghylch print yn yr amgylchedd (e.e. <i>labeli, rhybuddion</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gwnewch yn siŵr bod digon o gyfleoedd i weld print o fewn amgylchedd y dysgwr.	Mae'r dysgwr yn cyfeirio'n ddigymell at arwydd, label, ac ati, ac yn dangos drwy leferydd neu ddull arall ei fod yn deall ei ystyr.
Achubwch ar gyfleoedd i dynnu sylw at arwyddion, labeli a hysbysiadau o fewn a'r tu allan i'r ysgol.	Mae'r dysgwr yn ymateb gan ddefnyddio lleferydd neu ddull arall, gan ddangos ei fod yn deall yr ystyr.

Cynnig rhywfaint o wybodaeth am stori gyfarwydd	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Rhannwch stori gyda'r dysgwr sy'n gyfarwydd iddo/iddi ac rydych yn gwybod bod y dysgwr yn ei hoffi.	Mae'r dysgwr yn dweud rhywbeth ffeithiol am y stori sy'n dangos ei fod wedi deall pwynt allweddol, e.e. <i>mae'n cyfeirio at rywbeth sy'n digwydd i gymeriad arbennig, neu ar adeg arbennig yn y stori.</i>
Ceisiwch annog y dysgwr i ymuno a chynnig sylwadau.	

Edrych ar destun gyda/heb oedolyn, gan ddangos diddordeb neu fwynhad	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Gwnewch yn siŵr bod y dysgwr yn cael cyfleoedd rheolaidd i edrych ar ystod eang o ddeunyddiau darllen (e.e. <i>mewn cornel lyfrau neu lyfrgell, gyda CDau, DVDau, llyfrau comig, cylchgronau, y rhyngrwyd, ac ati</i>).	Mae'r dysgwr yn edrych ar y cloriau, yn fflicio trwy'r tudalennau ac yn ceisio darllen rhai geiriau gyda chymorth lluniau neu 'frandio' cyffredinol, e.e. <i>yn adnabod CD drwy hoff fand, rhaglen deledu mewn rhestr neu DVD mewn siop ar-lein.</i>

Ar drywydd llythrennedd – Darllen er gwybodaeth Gweithgareddau asesu/awgrymiadau

Mynegi mewn rhyw fodd neu'i gilydd, o'u hysgogi, eu hagwedd bersonol tuag at stori neu ddiddordeb mewn stori sydd newydd gael ei darllen (e.e. <i>hoffi/ddim yn hoffi, adalw digwyddiad penodol, ac ati</i>)	
Gweithgareddau asesu/awgrymiadau	Sylwch ar y canlynol
Darllenwch y stori gyda'r dysgwr gan aros mewn mannau allweddol i gael ei ymateb. Pan fydd y stori wedi gorffen gofynnwch i'r dysgwr beth mae'n ei feddwl am y stori. Defnyddiwch gwestiynau agored, megis 'Pa ran oeddet ti'n hoffi orau?'. Rhowch y llyfr i'r dysgwr a dywedwch 'Dangosa i mi'.	Mae'r dysgwr yn rhoi rhyw fath o ymateb sy'n 'gwerthuso', gan ddangos pa effaith y cafodd y stori, neu ryw elfen ohoni, arno/arni. Gallai hyn gynnwys y dysgwr yn cael hyd i rywbeth arbennig a phwyntio ato. Ceisiwch ei annog i leisio hyn.